# YMGYRCH HANES CYMRU

[redacted]

Jane Bryant
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Awst 2021

Annwyl Jane Bryant,

**Hanes Cymru a Chwricwlwm 2022**

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu Ymgyrch Hanes Cymru yn mynegi pryder am y diffyg sylw a roddir i hanes Cymru mewn nifer o ysgolion Cymru. Roeddem yn siomedig fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019) y dylai'r Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys canllaw yn nodi corff cyffredin o wybodaeth fel modd o sicrhau fod hanes Cymru'n cael ei gyflwyno'n effeithiol.

Sylweddolwn fod Cwricwlwm i Gymru 2022 yn nodi'r angen i ddysgu am hanes Cymru a bod Kirsty Williams, tra'n Weinidog Addysg wedi pwysleisio hynny. Rydym yn siŵr eich bod chithau'n rhannu'r dyhead hwnnw.

Serch hynny, mae'r sefyllfa hanesyddol o ddiffyg sylw i hanes Cymru (gweler, er enghraifft, adroddiad tasglu Dr Elin Jones yn 2013) yn golygu bod prinder adnoddau a bod diffyg gwybodaeth am, a dealltwriaeth o, hanes Cymru ymysg rhai athrawon. Mae angen gweithredu clir a phendant i sicrhau bod amcanion Cwricwlwm 2022 yn cael eu gwireddu o ran cyflwyno hanes Cymru'n gyflawn ac yn gyson yn holl ysgolion Cymru.

Mewn ateb (cyf TO/KW/06465/20) i lythyr a ddanfonwyd gennym at y Gweinidog Addysg bryd hynny, dyddiedig 11 Tachwedd 2020, nodir nifer o ddatganiadau pwysig. Dyfynnaf isod o'r ateb hwnnw ynghyd â chwestiynau yr wyf wedi eu gofyn i'r Gweinidog Addysg presennol.

***Bydd ysgolion yn cael cymorth i ymgysylltu â gweithwyr treftadaeth proffesiynol, amgueddfeydd ac orielau, yn ogystal ag arweinwyr cymunedol a diwylliannol wrth gynllunio eu cwricwlwm.***

Sut ac ym mha fodd yr estynnir y cymorth yma?

***Yn gynharach eleni*** (sef 2020) ***cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn yr adnoddau hynny.***

A yw canlyniadau'r adolygiad yma ar gael yn gyhoeddus? A oes rhestr neu gatalog o adnoddau wedi ei lunio? Pa fylchau a ganfyddwyd a pha fesurau a gymerwyd i lenwi'r bylchau hynny?

***Bydd Estyn hefyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar ei adolygiad o addysgu hanes ac amrywiaeth Cymru mewn ysgolion y flwyddyn nesaf.***

Tra'n sylweddoli bod y pandemig wedi effeithio ar ddulliau gweithio Estyn, a fydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno yn 2021? Os na fydd, beth yw'r amserlen ar gyfer yr adolygiad a pha bryd y gellir disgwyl adroddiad gan Estyn?

***penodwyd yr Athro Charlotte Williams OBE, i gadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd.***

Yn ein llythyr dyddiedig 11 Tachwedd roeddem yn galw am sefydlu gweithgor tebyg i edrych ar y modd y cyflwynir hanes Cymru. A fyddwch yn sefydlu gweithgor o'r fath?

***Ym mis Hydref*** (2020) ***cyhoeddodd y Gweinidog . . . y bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cwricwlwm ac y bydd rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliad yn cael ei sefydlu.***

A yw'r cynllun gweithredu y cyfeirir ato wedi cael ei ddatblygu? A ydyw ar gael yn gyhoeddus? A oes rhwydwaith o ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi ei sefydlu?

***Caiff cynllun gweithredu ei gyhoeddi yn fuan yn amlinellu'r prif heriau wrth weithredu'r cwricwlwm . . .***

A yw'r cynllun gweithredu wedi ei gyhoeddi? Os ydyw, beth oedd y prif heriau a ganfyddwyd? Sut y bwriedir ymdrin â'r heriau hynny?

Os yw hanes Cymru yn mynd i gael ei ddysgu'n effeithiol, mae Ymgyrch Hanes Cymru o'r farn bod angen gweithredu pendant gan y Gweinidog a'r llywodraeth i sicrhau bod adnoddau digonol, bod hyfforddiant a chyngor ar gael yn ôl yr angen a bod gan athrawon ac ysgolion yr amser a'r gefnogaeth i gynllunio'n llawn.

Gofynnwn felly i chi fel Pwyllgor Craffu i ofalu bod y Gweinidog a'r llywodraeth yn sicrhau bod hynny'n digwydd.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir

Eryl Owain – ar ran Ymgyrch Hanes Cymru